Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

# **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**Blwyddyn archwilio:** 2015-16

**Cyhoeddwyd:** Medi 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 511A2016

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

# Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Statws yr archwiliad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 4 |
| Materion o bwys sy'n deillio o'r archwiliad | 5 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 | 9 |
| Annibyniaeth a gwrthrychedd | 9 |
| Atodiadau | |
| Llythyr Sylwadau Terfynol | 10 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 13 |
| Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru atynt | 15 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 | 17 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

**1.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2016 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**2.** Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.

**3.** Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw £441,000. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.

**4.** Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.

**5.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar gyfer 2015-16 y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

**6.** Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 erbyn y terfyn amser statudol, sef 30 Mehefin 2016, ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio fwy neu lai.

**7.** Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân Dawn Docx.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

**8.** Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

**9.** Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

# Materion o bwys sy'n deillio o'r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

**10.** Nodwyd pedwar camddatganiad yn y datganiadau ariannol, nad ydynt wedi'u cywiro eto. Amlinellwn isod y camddatganiadau a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd â'r rheolwyr ond sy'n dal i fod heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os penderfynwch beidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi nodi'r rhesymau dros hynny.

- **Nid yw asedau TG gyda gwerth llyfr net o £38,000 yn cael eu defnyddio mwyach, sy'n arwain at orddatgan asedau anghyfredol ar y fantolen.**
  - Nododd profion i gadarnhau bodolaeth asedau nifer o asedau TG a oedd wedi cael eu disodli neu eu gwaredu. O ganlyniad, cafodd gwerth llyfr net asedau a ddelir ar y fantolen ei orddatgan £38,000. Gweler paragraffau 14 i 19 isod sy'n nodi manylion pellach.
- **Rhoddwyd cyfrif am wariant o £54,000 yn y cyfnod cyfrifyddu anghywir.**
  - Talwyd nifer o anfonebau mewn perthynas â chostau hyfforddiant a thrwyddedau meddalwedd yn 2015-16 ond mae'r gwariant yn ymwneud â 2016-17. Dylid bod wedi rhoi cyfrif am y symiau hyn fel rhagdaliadau ariannol. O ganlyniad, mae gwariant yn y cyfrif incwm a gwariant cynhwysfawr wedi ei orddatgan ac mae dyledwyr (rhagdaliadau) ar y fantolen wedi ei danddatgan gan y swm hwn.
- **Mae ad-daliad o wariant wedi ei ddosbarthu'n anghywir fel incwm.**
  - Mae ad-daliad o wariant gwerth £34,000 wedi cael ei drin yn anghywir fel incwm pan ddylai fod wedi cael ei glirio oddi ar y trafodyn gwariant gwreiddiol. Er nad oes unrhyw effaith net ar y cyfrif incwm a gwariant, cafodd incwm gros a gwariant gros eu gorddatgan gan y swm hwn.

## Camddatganiadau a gywirwyd

**11.** Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3

## Materion pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad

**12.** Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni.

## Mae gennym rai pryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol

**13.** Mae gennym y pryderon canlynol ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol:

## Nid yw'r gofrestr asedau yn dal gwybodaeth ddigon manwl am yr asedau unigol a ddosberthir fel cyfarpar gweithredol a TG, ac nid yw'r broses o roi cyfrif am warediadau yn ddigon cadarn ychwaith.

**14.** O'r gofrestr asedau ariannol, nid yw'n bosibl, mewn perthynas â chyfarpar gweithredol a TG i nodi asedau unigol. O ganlyniad, mae'n anodd penderfynu a yw'r asedau y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn y datganiadau ariannol yn dal i fodoli o fewn y gwasanaeth Tân

**15.** Cynhaliwyd gwaith i nodi'r asedau sy'n gysylltiedig â sampl o gofnodion y gofrestr asedau ond nid oedd hyn yn syml a bu'n broses hirfaith.

**16.** Gwnaethom lwyddo i gynnal digon o brofion i gael sicrwydd bod asedau gweithredol yn bodoli ond nid oedd hyn yn wir am gyfarpar TG lle roedd yn amlwg nad oedd rhai o'r asedau'n cael eu defnyddio mwyach. Fel y nodwyd ym mharagraff 10, arweiniodd hyn at werth llyfr net asedau TG yn cael ei orddatgan £38,000. Ni cheisiwyd sefydlu a oedd gwallau pellach gan ein bod yn fodlon nad oedd camddatganiad perthnasol yng ngwerth llyfr net asedau a gafodd eu cynnwys ar y fantolen.

**17.** Pan waredir asedau (neu pan gânt eu sgrapio) mae angen iddynt gael eu tynnu o'r gofrestr asedau er mwyn sicrhau bod gwerthoedd llyfr net, dibrisiant cronedig a gwerthoedd llyfr net yn cael eu datgan yn gywir. Fodd bynnag, mae'r broses o sicrhau y caiff yr adran gyllid ei hysbysu am warediadau yn annigonol ar hyn o bryd.

**18.** Roedd hyn yn wir hefyd am gerbydau, gan na roddwyd cyfrif am nifer o gerbydau a gafodd eu gwaredu yn ystod 2015-16 yn y datganiadau drafft. Arweiniodd hyn at ddiwygio'r cyfrifon ar gyfer yr eitemau hyn ac wedi hyn cawsom ddigon o sicrwydd mewn perthynas â cherbydau eraill.

**19.** Mae adrannau perthnasol yn cadw eu cofnodion eu hunain ar gyfer categorïau'r asedau hyn ond ni chânt eu cysoni ar hyn o bryd â'r gofrestr asedau ariannol. Mae'n hanfodol bod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod grwpiau unigol neu berthnasol o asedau yn cael eu cofnodi yn y gofrestr asedau a bod prosesau ar waith i sicrhau bod yr adran gyllid yn cael ei hysbysu am bob gwarediad. Gellir ategu hyn ymhellach drwy gysoni cofnodion yr asedau adrannol yn rheolaidd â'r gofrestr asedau.

### Mae angen cryfhau'r wybodaeth ariannol a ddelir yn y gofrestr asedau er mwyn rhoi dadansoddiad clir i gefnogi'r balansau gros ar ddiwedd y flwyddyn a chofnodion cyfrifyddu'r flwyddyn

**20.** Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i beth gwybodaeth ariannol ac anariannol, cyfredol a hanesyddol, gael ei dal yn y gofrestr asedau er mwyn rhoi cyfrif priodol am drafodion asedau. Mae absenoldeb gwybodaeth berthnasol yn gwneud y cofnodion blynyddol yn fwy cymhleth. Felly mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn diwygio ei gofrestr asedau er mwyn dal yr holl wybodaeth berthnasol.

### Mae angen ailddatgan y gwaith o gyflwyno'r nodyn Eiddo, Offer a Chyfarpar

**21.** Nid oedd y cofnodion a oedd yn ymwneud ag ailbrisio tir ac adeiladau yn ystod y flwyddyn wedi cael eu cyflwyno'n gywir yn y nodyn Eiddo, Offer a Chyfarpar ac o ganlyniad nid oedd rhai cofnodion yn cyd-fynd â rhannau eraill o'r datganiadau ariannol fel y bo'n ofynnol. Felly, roedd angen ailddatgan y nodyn er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno'n gywir. Nid effeithiodd hyn ar werth llyfr net yr asedau.

### Mae angen i'r Awdurdod sicrhau y cyfrifir am bob incwm a gwariant yn ei ddatganiadau cyfrifyddu sylfaenol.

**22.** Un o ofynion sylfaenol y Cod Ymarfer yw bod y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr (CIES) yn cynnwys gwariant gros, incwm gros a gwariant net ei weithrediadau. Nodwyd bod yr Awdurdod wedi derbyn a gwario incwm grant o £1.425 miliwn (£1.373 miliwn yn 2014-15) na roddwyd cyfrif amdano yn y CIES, er i ni dderbyn bod yr incwm wedi'i ddatgelu yn Nodyn 28 yn y datganiadau ariannol. Nid yw'r datgeliad, er bod ei angen i ategu'r prif ddatganiadau, yn ddigonol ynddo'i hun. Mae hyn wedi arwain at ddiwygiad perthnasol i'r flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol yn y datganiadau ariannol.

**23.** At hynny, er ein bod yn gwerthfawrogi bod yr Awdurdod Tân yn gosod ei fryd ar gael cyllid grant, byddem yn disgwyl gweld yr incwm grantiau a'r gwariant cysylltiedig yn cael eu hymgorffori yn y wybodaeth gyllidebol a ystyrir gan yr Awdurdod Tân. Byddai hyn yn darparu un ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth ariannol i helpu'r Awdurdod i ymarfer ei oruchwyliaeth ariannol.

### Ni wnaeth Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân roi cyfrif am gostau trethiant mewn perthynas â thaliadau iawndal cyfandaliadau pensiwn o ganlyniad i ddyfarniad Llys

**24.** Yn dilyn cwblhau achos Llys (GAD v Milne) penderfynwyd bod y gwaith o gyfrifo taliadau cymudo i ddiffoddwyr tân a oedd yn ymddeol, yn dyddio'n ôl nifer o flynyddoedd, wedi bod yn anghywir. O ganlyniad, talwyd taliadau cywirol o £804,000 o Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ac ad-dalwyd y costau ychwanegol hyn gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn ogystal â'r taliadau hyn, cafwyd rhwymedigaethau treth yn ymwneud â thaliadau iawndal cyfandaliadau o £536,000. Er bod cytundeb y byddai'r trafodion arian parod gwirioneddol yn cael eu cynnal rhwng Trysorlys EM a Chyllid y Wlad, o safbwynt cyfrifyddu maent yn ymwneud â gweithgareddau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Felly, gwnaed addasiad i roi cyfrif am y rhain fel trafodion tybiannol er mwyn sicrhau bod y datganiadau ariannol yn adlewyrchu'r rhwymedigaethau go iawn yn gywir.

## Daethom ar draws rhai anawsterau yn ystod yr archwiliad

**25.** O ganlyniad i'r materion a nodwyd uchod mewn perthynas â digonolrwydd y wybodaeth ariannol a'r wybodaeth anariannol yn y gofrestr asedau, roedd angen gwneud cryn dipyn o waith ychwanegol i gael sicrwydd digonol ynghylch asedau anghyfredol.

**26.** Hefyd, er bod y papurau gwaith a oedd yn weddill yn foddhaol ar y cyfan, mae cyfle i'w gwneud hyd yn oed yn fwy clir.

### Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt

**27.** Nid oes unrhyw faterion eraill i'ch hysbysu amdanynt. Yn benodol:

- Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.
- Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.
- Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol nad ydym wedi eich hysbysu amdanynt eisoes.
- Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.

## Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

**28.** Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn Atodiad 4. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os bydd unrhyw gamau gweithredu yn weddill, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

## Annibyniaeth a gwrthrychedd

**29.** Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

**30.** Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd na'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

19 Medi 2016

## Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2015-16

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt a'u bod wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y DU; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

Mynediad llawn i'r canlynol:

- yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.

Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.

Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn ymwneud â:

- rheolwyr;
- cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
- eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.

Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol. diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan. Mae'r penderfyniad i beidio â chywiro'r camddatganiadau yn y cyfrifon ar gyfer 2015/16 fel a ganlyn:-

- **Mae gwerth llyfr net Asedau TG ar y fantolen wedi ei orddatgan** – caiff adolygiad llawn a chynhwysfawr o'r gofrestr asedau a'r gweithdrefnau ynghylch cofnodi'r asedau ar y gofrestr ei gynnal yn 2016/17, a chaiff unrhyw orddatganiadau eu cywiro yn ystod y broses hon. Ystyrir nad yw'r symiau dan sylw yn berthnasol a'r farn o hyd yw bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

- **Rhoddwyd cyfrif am wariant yn y cyfnod cyfrifyddu anghywir** – nid yw'r symiau yn berthnasol ac ni fyddent wedi effeithio ar y sefyllfa ariannol gyffredinol gan y byddai'r arian wedi cael ei neilltuo i gronfa wrth gefn a glustnodwyd o gyfrifon 2015/16 er mwyn cwmpasu'r gwariant yn 2016/17.
- ***Dosbarthwyd ad-daliad o wariant yn anghywir fel incwm*** – nid yw'r swm yn berthnasol ac nid oes unrhyw wariant yn y flwyddyn i'w glirio.

## Sylwadau gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 19 Medi 2016.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| **Dawn Docx** | **Meirick Lloyd Davies** |
| **Dirprwy Brif Swyddog Tân** | **Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; a
- Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig [blwyddyn] sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2016 ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu cronfa bensiwn y Diffoddwyr Tân**

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw, ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran
Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
[Dyddiad]

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| **£1,425,000** | **Rhagair Esboniadol**<br>Mae Grantiau Refeniw fesul Rhagair Esboniadol wedi cael eu tanddatgan | Er mwyn datgelu gwerth Grantiau Refeniw a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn gywir. |
| **£ Niferus** | **Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**<br>Roedd incwm a gwariant gros fesul Datganiad Cyfrifon yn cynnwys hepgoriadau perthnasol, roedd yr hepgoriadau incwm a gwariant o'r un swm ac nid oedd unrhyw effaith net ar Gost Gwasanaethau.<br>Bydd addasiad cyfnod blaenorol yn cyd-fynd â hyn yn nodyn 5 er mwyn cywiro ffigurau cymharol. | Er mwyn datgelu gwerth Incwm a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn gywir, a gwybodaeth gymharol. |
| **De minimus wedi'i godi o £100 i £1,000** | **Polisi Cyfrifyddu 17 – Eiddo, Offer a Chyfarpar**<br>Adolygwyd y lefel de-minimus ddatganedig ym mholisi cyfrifyddu 17, a phennwyd lefel wedi'i diweddaru. | Cafodd y de-minimus ei godi er mwyn adlewyrchu arferion ar gyfer cyfalafu asedau sefydlog yn well. |
| **£ Niferus** | **Nodyn 7 Trosglwyddiadau i ac o Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd**<br>Nid oedd y gwaith o gastio na chroes-gastio'r nodyn wedi cael ei gwblhau'n gywir. | Er mwyn castio a chroes-gastio'r Trosglwyddiadau i ac o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn gywir |
| **£ Niferus** | **Nodyn 11 Eiddo, Offer a Chyfarpar**<br>Gwnaed addasiadau perthnasol i gyflwyniad cofnodion ailbrisio a dibrisio Tir ac Adeiladau yn Nodyn 11 i adlewyrchu gofynion y Cod. | Er mwyn cyflwyno'r dibrisiant cronedig a thrafodion yr ailbrisiad dilynol yn gywir |
| **£122,000** | **Nodyn 11 – Eiddo, Offer a Chyfarpar**<br>Gwnaed addasiadau i adlewyrchu'r broses o waredu Cerbydau a dileu dibrisiant cronedig nad oedd wedi cael ei dynnu o'r gofrestr asedau pan gawsant eu gwaredu'n wreiddiol. | Er mwyn datgelu gwerth gros cerbydau a dibrisiant cronedig yn gywir. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| **£459,000** | **Nodyn 19 Cronfeydd Annefnyddadwy – Cronfa Ailbrisio a Cyfrif Addasu Cyfalaf**<br>Addasiad i adlewyrchu driniaeth gywir o ailbrisio'r asedau | Sicrhau bod y Gronfa Ailbrisio a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gywir |
| **£ Niferus** | **Nodyn 21 – Datganiad Llif Arian Parod – Gweithgareddau Gweithredu**<br>Gwnaed addasiadau i ddatgeliadau yn Llif Arian Parod - Gweithgareddau Gweithredu ac maent yn cynnwys diwygiadau i 'Addasiadau Pensiwn IAS 19', 'Cyfraniadau (i)/o Ddarpariaethau Amrywiol' a 'Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn'. | Er mwyn datgelu Llif Arian Parod Net o Weithgarwch Gweithredu yn gywir |
| **£1,864,000** | **Nodyn 22 – Datganiad Llif Arian Parod – Gweithgareddau Buddsoddi**<br>Caiff llifau arian parod net o weithgareddau buddsoddi ar gyfer 2014/15 eu datgan ar £3,402,000, a dylai'r ffigur hwn fod yn £5,266,000 | Er mwyn datgelu llifau arian parod net o weithgareddau buddsoddi ar gyfer 2014/15 yn gywir |
| **£ Niferus** | **Nodyn 27 – Cymarebau Cydnabyddiaeth Swyddogion**<br>Roedd gwybodaeth ganolrifol wedi cael ei llunio ar gyflogau pwyntiau graddfa yn hytrach na chyfanswm y gydnabyddiaeth.<br>Diweddarwyd datgeliadau i adlewyrchu cyfanswm y gydnabyddiaeth yn hytrach na chyflogau pwyntiau graddfa.<br>Darparwyd gwybodaeth gymharol i gyd-fynd â'r nodyn. | Er mwyn datgelu cydnabyddiaeth yn gywir yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru). |
| **£536,000** | **Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**<br>Nid oedd y cyfrif yn cynnwys yr elfen codi tâl heb awdurdod o daliadau cymudo (A adwaenir hefyd fel GAD v Milne) | Er mwyn cynnwys yr elfen codi tâl heb awdurdod o daliadau cymudo yn gywir |
| **Newidiadau amrywiol a naratif ychwanegol** | Bu mân newidiadau amrywiol a naratif ychwanegol | Er mwyn sicrhau datgeliad cywir ac i hysbysu'r darllenydd |

# Atodiad 4

## Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf:

| **Mater yn codi 1 – Gwybodaeth ariannol ac anariannol annigonol yn y gofrestr asedau** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nid yw'r gofrestr asedau yn dal digon o wybodaeth ariannol ac anariannol, cyfredol na hanesyddol, i ategu cofnodion cyfrifyddu |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Diwygio'r gofrestr asedau i gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod y cofnodion cyfrifyddu angenrheidiol yn cael eu cadarnhau a'u hategu'n hawdd gan gofnodion sylfaenol |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Mae'r driniaeth o Dir ac Adeiladau o ran ailbrisio a dibrisio yn unol â'r cod yn gymhleth ac nid yw'r system a luniwyd i roi cyfrif am y cofnodion wedi cynnwys yr holl ofynion yn llawn. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Caiff adolygiad o'r gofrestr asedau ei gynnal yn 2016/17 a chaiff y system a ddefnyddir i roi cyfrif am y cofnodion ei hadolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod. |
| **Dyddiad gweithredu** | Ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2016/17 |

| **Mater yn codi 2 – Dadansoddiad annigonol o asedau cyfarpar unigol yn y gofrestr asedau** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Ni chaiff asedau cyfarpar eu cofnodi yn y gofrestr asedau yn ddigon manwl i sicrhau y gellir nodi asedau unigol, neu grwpiau o asedau |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Diwygio'r gofrestr asedau i gynnwys asedau ar lefel unigol neu grŵp, er mwyn sicrhau y gellir eu nodi'n hawdd a sicrhau bod y gofrestr asedau yn gyson â'r cofnodion adrannol |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod y gofrestr asedau, ac felly'r datganiadau ariannol, yn adlewyrchu'r asedau a ddelir gan yr Awdurdod Tân yn gywir |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Derbynnir mai dim ond am gyfanswm y gwariant ar rai asedau yn ystod y flwyddyn y mae'r gofrestr asedau yn rhoi cyfrif amdano. Er bod holl asedau'r Awdurdod ar y gofrestr asedau nid yw'r system gyfredol yn ei gwneud yn hawdd i asedau unigol gael eu gwaredu. Mae adrannau'n dal cofnod manwl o'r holl asedau ond ni chysonwyd y ddwy gofrestr. |

| Mater yn codi 2 – Dadansoddiad annigonol o asedau cyfarpar unigol yn y gofrestr asedau | |
|---|---|
| **Ymateb y rheolwyr** | Caiff adolygiad o'r gofrestr asedau ei gynnal yn 2016/17 a chaiff y system a ddefnyddir i roi cyfrif am y cofnodion ei hadolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod. |
| **Dyddiad gweithredu** | Ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2016/17 |

| Mater yn codi 3 – Dffyg proses gadarn i sicrhau y rhoddir cyfrif am waredu asedau yn y gofrestr asedau | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae'r broses o roi gwybod i'r adran gyllid am waredu asedau yn annigonol ac o ganlyniad nid yw'r gofrestr asedau ariannol yn cael ei diweddaru'n brydlon |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Gweithredu proses gadarn i roi gwybod am gyllid gwarediadau asedau |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod y gofrestr asedau, ac felly'r datganiadau ariannol, yn adlewyrchu'r asedau a ddelir gan yr Awdurdod Tân yn gywir |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Mae adrannau'n dal cofnodion o'r holl asedau sy'n cynnwys cofnodion ar gyfer gwaredu asedau. Nid yw'r wybodaeth o ran gwarediadau yn ystod y flwyddyn wedi cael ei chyfleu bob amser i'r adran gyllid. Er bod gwerth llyfr net asedau yn gywir efallai (heblaw am achosion lle y gwaredwyd yr ased cyn iddo gael ei ddibrisio'n llawn) gall y gwerth llyfr gros gael ei orddatgan. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Caiff adolygiad o'r gofrestr asedau ei gynnal yn 2016/17 a chaiff y system a ddefnyddir i roi cyfrif am y cofnodion ei hadolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod. Caiff gweithdrefnau eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y gofrestr asedau a'r cofrestri adrannol yn cynnwys yr un wybodaeth. |
| **Dyddiad gweithredu** | Cynhelir adolygiad yn 2016/17 |

| Mater yn codi 4 – Ni roddir cyfrif am incwm grantiau na'r gwariant cysylltiedig yn y datganiadau ariannol a'r adroddiadau cyllidebol | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Ni roddwyd cyfrif am incwm grantiau na'r gwariant cysylltiedig yn y datganiadau ariannol ac ni chawsant eu cynnwys ychwaith mewn adroddiadau cyllidebol a gyflwynwyd i'r Awdurdod Tân |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Sicrhau y rhoddir cyfrif am yr holl incwm a gwariant grantiau yn briodol ac y caiff ei gofnodi |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod y cofnodion cyfrifyddu yn gywir a bod gan yr Awdurdod Tân oruchwyliaeth ariannol briodol mewn perthynas â'r holl gronfeydd sydd ar gael i'r Awdurdod wrth reoli ei weithgareddau |

| Mater yn codi 4 – Ni roddir cyfrif am incwm grantiau na'r gwariant cysylltiedig yn y datganiadau ariannol a'r adroddiadau cyllidebol | |
|---|---|
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Er yr hysbysir Aelodau o'r holl grantiau a ddyfarnwyd i'r Awdurdod ni chaiff y wybodaeth ei chyfleu iddynt fel rhan o'r adroddiadau alldro ariannol. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Caiff adran o ran grantiau ei chynnwys yn yr adroddiadau alldro i Aelodau ar gyfer 2016/17. |
| **Dyddiad gweithredu** | Medi 2016 |

| Mater yn codi 5 – Rhoddwyd cyfrif am nifer o drafodion yn ymwneud â 2016-17 ym mlwyddyn ariannol 2015-16 | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Rhoddwyd cyfrif am drafodion yn ymwneud â 2016-17 ym mlwyddyn ariannol 2015-16 gan arwain at orddatgan gwariant a thanddatgan dyledwyr |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Sicrhau y rhoddir cyfrif am drafodion yn y cyfnod cywir yn unol â'r egwyddor croniadau. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cofnodi incwm a gwariant sy'n ymwneud â'r cyfnod perthnasol yn gywir a bod y fantolen yn adlewyrchu'r holl asedau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Rhoddwyd cyfrif am y trafodyn yn anghywir yn ystod y flwyddyn ond ni fyddai'r effaith net ar y sefyllfa alldro wedi newid gan y byddai cronfa wrth gefn wedi cael ei neilltuo o 2015/16 i roi cyfrif am y gwariant yn 2016/17. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Caiff gweithdrefnau eu hadolygu o ran cronni rhagdaliadau. |
| **Dyddiad gweithredu** | Ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2016/17 |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru